CYNGOR CYMDEITHAS LLANGOEDMOR COMMUNITY COUNCIL

**Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Llangoedmor a gynhaliwyd yn yr Hen Ysgoldy, Llangoedmor, nos Lun 1 Ebrill 2019**

Presennol: Cadeirydd y Cyng Iwan Davies. Cyngr: Ken Symmons, Hywel Davies, Steve Kings, Mrs Laura Holder, Mrs Nicky Redmond, Mrs Amanda Edwards

CS Clive Davies

Clerc

**1. Croeso ac Ymddiheuriadau**
Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Nid oedd dim ymddiheuriadau.

**2. Gweddi Agoriadol**
Dywedwyd, pe byddai'r Is-gadeirydd yn cael ei ethol yn Gadeirydd yn y CCB, y byddai'n well ganddo i unrhyw weddïau ddigwydd cyn dechrau'r cyfarfod yn ystod ei gyfnod yn y swydd. Ar ôl trafodaeth cytunwyd i'r weddi gael ei chadw fel rhan o'r cyfarfod oherwydd teimlid nad oedd yn cyfeirio at unrhyw grefydd benodol. Byddai unrhyw un na fyddai'n hoffi cymryd rhan yn cael cyfle i adael y cyfarfod yn ystod y weddi.

**3. Datgelu Buddiannau Personol**
Dim.

**4. Materion Personol**
**Llongyfarchwyd y CS Clive Davies ar ennill 'Gwobr Gweithredwr y Flwyddyn' gan Blaid Cymru.**

**5. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**
Cynigiodd y Cyng Mrs N Redmond y dylid derbyn y cofnodion fel cofnod cywir, eiliwyd gan y Cyng H Davies a chytunwyd.

**6. Materion yn Codi**
Dywedwyd bod deiliaid y Seven Stars yn ymwybodol fod y bwrdd y tu allan i'r dafarn yn cael ei symud nawr ac yn y man a byddent yn sicrhau na fyddai'n rhwystro'r palmant.

**7. Ceisiadau Cynllunio**
A190168 Tir oddi ar y B4570 Llangoedmor
Codi adeilad deulawr newydd dau ben, modurdy dwbl ac uned adwerthu dan y polisi mentrau gwledig (TAN6). Gwaith i gynnwys mynedfa newydd i gerbydau i'r ffordd B4570 bresennol a llety allanol gan gynnwys man parcio a throi ar gyfer annedd a mannau amwynder i wasanaethu'r adeilad newydd. Cefnogwyd y cais gan y Cyngor Cymuned.

*Cynlluniau Lle*
Tai
Dywedodd y CS Clive Davies yn y Cynllun Datblygu Lleol 2 y gallai Penparc a Llechryd gael eu hailddiffinio i dderbyn mwy o dai. Gofynnwyd am i'r Cyngor Cymuned gael gwybodaeth am unrhyw newidiadau arfaethedig.

**8. Adroddiad y Cynghorydd Sirol**
Dywedodd y CS Clive Davies y byddai'r cais am amlosgfa anifeiliaid anwes yn yr Hen Gapel yn mynd gerbron y Pwyllgor Cynllunio. Roedd y cais yn Nhŷ Ni, Tŷ Fri, Llechryd wedi ei wrthod. Roedd Mr Davies wedi ei benodi'n Ddirprwy Faer Tref Aberteifi ac yn Ddirprwy Gadeirydd Pwyllgor Trwyddedu Cyngor Sir Ceredigion. Roedd yn dda ganddo ddweud y byddai swyddogion y Cyngor Sir yn bresennol yn y digwyddiad ar gyfer pobl a oedd wedi dioddef yn y llifogydd, yn Neuadd y Cwrwgl ar 18 Ebrill, pan fyddai cymorth pellach yn cael ei gynnig. Byddai Teledu Cylch Cyfyng yn cael ei ddefnyddio yn Aberteifi

eto ac roedd yn edrych ar brosiect lle gellid defnyddio synwyryddion amlder isel i helpu mynd i'r afael â throseddau yng nghefn gwlad. Roedd wedi cael gwybod am broblemau parhaus yn yr ardal. Dywedodd y byddai mapio Teithio Llesol ar gyfer Ceredigion yn cael ei ddiweddaru dim hwyrach na mis Chwefror 2021.

**9. Cyllid a Gweinyddu**

*Taliadau*

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 14.03.19 | NBB Recyl Furn | Bwrdd Picnic bach | 406.80 | DC |
| 12.03.19 | Glasdon UK Ltd | 3 x bwrdd picnic | 1937.63 | DC |
| 30.03.19 | Ailgylchu LAS Cyf | Bin ar olwynion | 20.46 | DD |
| 1.04.19 | Cyllid a Thollau EM | | 5.00 | |
| | S E Davies | Swyddfa yn y cartref 25, post 6.96 | 31.96 | |
| | SE Davies | Cymhwyso cyflog oherwydd codiad | 21.54 | |
| | Neuadd y Cwrwgl | Hurio'r ystafell | 16.00 | |
| | Mr E Rees | Glanhau'r bloc toiledau | 200.00 | |
| | Cyngor Sir Ceredigion | Trethi'r bloc toiledau | 489.18 | |
| | SSE | Trydan i'r bloc toiledau | 56.34 | |
| 30.04.19 | S E Davies | Cyflog | 336.36 | AS |

| | | |
|---|---|---|
| Adroddiad cymhwyso 28.2.19 | 24621.75 | |
| | | 0.9 |
| Agor y Llyfr Arian | 25902.1 | |
| Derbyniadau | | |
| Taliadau | 1281.25 | |
| Cau'r Llyfr Arian | 24620.85 | |

Cynigiwyd: Cyng Mrs A Edwards, eiliwyd Cyng H Davies, cytunwyd.

*Taliadau i Gynghorwyr*

***Dywedwyd bod angen i'r Cyngor, yn ôl y gyfraith, ail-gadarnhau'r symiau a gytunwyd yng nghyllideb 19/20. Roedd hyn ar ôl cael adroddiad terfynol IRPW.***

| **Treuliau Cynghorwyr** | | |
|---|---|---|
| Taliad i Gynghorwyr (IRPW 37) | 1650 | |
| Cyfrifoldebau penodol (IRPW 39) | 0 | |
| Costau teithio Cynghorwyr (IRPW 40) | 200 | |
| Lwfans dros nos (IRPW 41) | 0 | |
| Iawndal Colled Ariannol (IRPW 42) | 0 | |
| Lwfans am ofal pobl ddibynnol (IRPW 43) | 403 | |
| Lwfans y Cadeirydd (IRPW 44) | 350 | |
| Dirprwy Gadeirydd (IRWP 45) | 0 | |
| Hyfforddiant | 440 | |
| **Cyfanswm:** | | 3043 |

Cynigiwyd Cyng Mrs N Redmond, eiliwyd Cyng S Kings, cytunwyd.

*Taliadau – cadarnhad ysgrifenedig, cof. ar gyfer PAYE*
*£150*
*Lwfans y Cadeirydd*

Dywedodd y Clerc y dylai Cynghorwyr wybod, os nad oeddent yn dymuno cael taliadau, ei bod yn RHAID iddynt ysgrifennu at y Clerc. RHAID i Gynghorwyr sy'n dymuno cael taliadau (gan gynnwys lwfans y Cadeirydd) gofrestru ar gyfer PAYE a darparu'r wybodaeth angenrheidiol i alluogi'r Clerc i wneud hyn. Pe byddai Cynghorwyr, o fethu ag ysgrifennu at y Clerc, yn gymwys i gael y lwfans a methu â rhoi'r wybodaeth angenrheidiol i'r Clerc gofrestru ar gyfer PAYE, byddai'n rhaid i hynny gael ei nodi yn y cofnodion, a gallai'r Cynghorwyr hynny fod yn torri'r Cod Ymddygiad.

*Archwiliad*
Roedd pecyn archwilio allanol wedi cyrraedd. Roedd Mrs Jamison wedi dod allan o'r ysbyty ac yn gwella'n dda, a byddai'n gallu ymgymryd â'r archwilio mewnol am ffi o £75. Roedd ffigurau Diwedd Blwyddyn i gael eu crynhoi.

*Targed ar gyfer Eisteddfod 2020 £5000*
Cytunwyd i wahodd y Cyng Catrin Miles, Cadeirydd y pwyllgor lleol codi arian, i ddod i gyfarfod cyhoeddus lle byddai pwyllgor codi arian ar gyfer Llechryd a Llangoedmor, gobeithio, yn cael ei sefydlu.
GWEITHREDU: Cysylltu â'r Cyng C Miles GAN: Y Clerc

*Codi arian (£1500 yn y gyllideb am y flwyddyn)*
Ar ôl trafodaeth cytunwyd i roi'r symiau canlynol:
Canolfan Therapi Ocsigen - £200
Gofal Colled Cruse - £200
Ambiwlans Awyr Plant Cymru - £200
Byddai'r Clerc yn cyflwyno sieciau grantiau i'w llofnodi yng nghyfarfod mis Mai.

Trafodwyd cais pellach gan unigolyn. Cytunwyd i'r Cadeirydd ymateb gan awgrymu er na allai'r Cyngor ariannu unigolyn y gallai ystyried ariannu'r corff chwaraeon.

*Prisio'r bloc toiledau at ddibenion yswiriant, a Chadwyn y Swydd*
Dirprwyo'r dasg i'r Clerc a'r Is-gadeirydd. Angen defnyddio cwmni lleol sydd â chymwysterau priodol.

*Cais y Clerc am wyliau*
Caniatawyd cais y Clerc am wyliau.

**10. Priffyrdd a Hawliau Tramwy Cyhoeddus**

*Ymholiad am Gyflymdra yng Nghroes-y-llan* – Holi eto

Roedd biniau a oedd wedi eu malu wedi eu hadnewyddu. Ni fyddai CSC yn darparu biniau olwyn i drigolion pan ddechreuir casglu'r bagiau duon bob 3 wythnos.

Mynegwyd pryder eto nad oedd y modurdy fel pe bae'n darparu biniau sbwriel i'r rheiny sy'n defnyddio'i wasanaethau.

*Llain borfa yn Preseli View - dim diweddariad ar gael*

Dywedodd y Cyng S Kings iddo fod ar gwrs ar beiriannau torri llwyni a gobeithiai gael defnyddio cyfarpar sy'n eiddo i CSC i helpu cynnal a chadw llwybrau troed yn yr ardal. Gobeithiai gael cyfle i weld y map terfynol o lwybrau'r ardal.

**11. Amwynderau**
*Gosod biniau – cae chwarae*
Roedd gosod y biniau nawr wedi ei drefnu.

*Gosod meinciau*
3 wedi cyrraedd a 2 i ddod ym mis Ebrill.
Byddai gosod y meinciau'n cael ei drefnu. Byddai'r hen fin wrth gefn y neuadd yn cael ei symud oddi yno.

*Arwyddion baw cŵn*
Roedd yr Ysgol wedi bod yn dylunio arwyddion yn y gorffennol. Gofynnwyd a allai'r arwyddion gael eu hailgynhyrchu a'u gosod o gwmpas y pentref.

**12. Prosiectau'n parhau**
*Mainc newydd wrth yr eglwys* (blwyddyn ariannol 19/20)

**13. Digwyddiadau**
*Digwyddiad ar gyfer pobl wedi dioddef gan y llifogydd diweddar.*

18 Ebrill 2019, 7pm yn Neuadd y Cwrwgl, CSC i gysylltu â phawb a ddioddefodd gan y llifogydd.

*Cinio'r Cadeirydd*
Penllwyn-du 26 Ebrill 2019
GWEITHREDU: Anfon y fwydlen at bawb GAN: Y Clerc

*Gwasanaeth y Cofio*
Eitem ar agenda Cyfarfod mis Mai

**14. Adroddiadau cyfarfodydd**
*Gwydnwch Cymuned/Cynllunio mewn Argyfwng*
Ar ôl trafodaeth cytunwyd bod angen sylwadau gan CSC.
GWEITHREDU: Cysylltu â'r CS Clive Davies GAN: Y Clerc

*Cyfarfod SLCC*
Roedd y Clerc wedi bod mewn cyfarfod cangen, a dywedodd o'r flwyddyn ariannol 20/21, y byddai'r archwiliad allanol yn cael ei wneud gan Swyddfa Archwilio Cymru. Gellid disgwyl deddfwriaeth newydd ar gyfer y sector erbyn diwedd y flwyddyn, yn rhannol i adlewyrchu ymateb Llywodraeth Cymru i'r arolwg o Gynghorau Tref a Chymuned. Mae ad-drefnu prif awdurdodau nawr yn annhebygol iawn o ddigwydd. Mae SLCC etc yn gweithio gyda Chyllid a Thollau EM i geisio trefnu i lwfansau Cynghorwyr fod yn ddi-dreth.

**15. Gohebiaeth / + Gohebiaeth e-bost**
I gyd wedi eu cynnwys dan benawdau'r Agenda.

**16. Cyfnewid Gwybodaeth**
Roedd Parti yn y Parc yn gofyn am gael defnyddio'r cae ar 6 Gorffennaf. Nodwyd y byddai angen copi o'r yswiriant, yr asesiad risg a'r drwydded digwyddiadau dros dro ar gyfer cofnodion y Cyngor a'r Elusen.

**17. Dyddiad y cyfarfod nesaf - 13.5.19**

*Gan nad oedd dim busnes pellach i'w drafod, daeth y cyfarfod i ben am 9.15pm.*